OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1595 (Cy. 194)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Capel Llanilltern)) a Chefnffordd yr A4232 (Capel Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym* | *3 Awst 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) a Chefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) ("y draffodd" ac "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd a'r gefnffordd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Awst 2015 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Capel Llanilltern)) a Chefnffordd yr A4232 (Capel Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 3 Awst 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") ac "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a'r gefnffordd yn Ninas a Sir Caerdydd fel a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 1.98 metr o led neu'n lletach, fynd ar lôn allanol y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 9 yn weithredol.

**Cyfyngiadau**

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

**9.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

**Atal Dros Dro**

**10.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4, drwy hyn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**11.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**12.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1974/502

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y Gyffordd o dan sylw.

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y Gyffordd o dan sylw.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33.

Y darn o lôn neilltuedig yr A4232 o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33.

Y darn o'r drosbont ddwyreiniol Cylchfan Capel Llanilltern yr A4232 o'i chyffordd â dechrau ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M4 hyd at ei chyffordd â diwedd ffordd ymadael tua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 33.

Y darn o'r drosbont orllewinol Cylchfan Capel Llanilltern yr A4232 o'i chyffordd â dechrau ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M4 hyd at ei chyffordd â diwedd ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M4 wrth Gyffordd 33.

Y darn o adran ddeheuol cerbytffordd gylchredol y gefnffordd wrth Gylchfan Capel Llanilltern sy'n ymestyn o'i chyffordd â dechrau ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M4 i gyfeiriad clocwedd hyd at ei chyffordd â diwedd ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M4 wrth Gyffordd 33.

Y darn o adran ddeheuol cerbytffordd gylchredol y gefnffordd wrth Gylchfan Capel Llanilltern sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd tua'r de yr A4232 i gyfeiriad clocwedd hyd at ei chyffordd â cherbytffordd tua'r gogledd yr A4232.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

## ATODLEN 2
## Gwahardd dros dro gerbydau sy'n lletach na 1.98 metr

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt tanbont Church Road hyd at bwynt sy'n 1 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Capel Llanilltern).

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt tanbont Church Road hyd at bwynt sy'n 1 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Capel Llanilltern).

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y draffordd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 745 o fetrau i'r de o ganolbwynt tanbont St Brides Road hyd at bwynt sy'n 1 cilometr i'r de o ganolbwynt tanbont St-y-Nyll Road.

## ATODLEN 4
## Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern hyd at ganolbwynt tanbont St-y-Nyll Road.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd o bwynt sy'n 1 cilometr i'r de o ganolbwynt tanbont St-y-Nyll Road hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern.

## ATODLEN 5
## Terfyn cyflymder 30 mya dros dro

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern.

## ATODLEN 6
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern hyd at ganolbwynt tanbont St-y-Nyll Road.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt tanbont St-y-Nyll Road hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Capel Llanilltern.